NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# CANIATÂD SGIP

# PECYN CAIS

## RHEOLI SGIPIAU ADEILADWYR DEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 139

**Cyffredinol: 01633 656 656**

**Manylion Cyswllt ar gyfer Cwmnïau Sgipiau YN UNIG**

**01633 210538**

**E-bost: street.works@newport.gov.uk**

## ***SYLWER AR Y CANLYNOL:***

**GALL METHU Â CHYDYMFFURFIO AG ADRANNAU PERTHNASOL DEDDF PRIFFYRDD 1980 (ADRAN 139) ARWAIN AT ERLYNIAD A GALL Y SAWL DAN SYLW FOD YN ATEBOL AR GOLLFARN DDIANNOD I DDIRWY HEB FOD YN FWY NA £5000 AR BOB CYFRIF.**

**BYDD METHIANT I GYFLWYNO'R WYBODAETH OFYNNOL YN ARWAIN AT DDYCHWELYD Y CAIS.**

**NI FYDD Y CYNGOR YN CADW UNRHYW WYBODAETH AC NI FYDD Y CAIS YN CAEL EI BROSESU.**

**RHAID PEIDIO Â GOSOD UNRHYW SGIP AR Y BRIFFORDD CYN I GANIATÂD GAEL EI ROI.**

<u>**CYNNWYS**</u>


**Rhan 1** Cyflwyniad

**Rhan 2** Gweithdrefn i Ymgeiswyr

**Rhan 3** Amodau Arbennig i Osod, Cadw a Chynnal

**Rhan 4** Taliadau

**Rhan 5** Diagramau

**Rhan 6** Ffurflen Gais Rheoli Sgipiau Adeiladwyr

## Rhan 1 - CYFLWYNIAD

I osod sgip adeiladwyr ar y briffordd, mae'n rhaid cael caniatâd ar gyfer pob lleoliad gan yr Awdurdod Priffyrdd. Ni roddir caniatâd oni bai eich bod yn ymrwymo i gydymffurfio â'r amodau a restrir isod yn ogystal ag unrhyw amodau eraill a allai fod yn angenrheidiol ym marn yr Awdurdod Priffyrdd. Bydd amodau ychwanegol o'r fath yn y Caniatâd Sgip ei hun. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r amodau hyn, gallwch fod yn agored i gael eich erlyn dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

Nawr dylech ddarllen yr amodau a restrir isod ac ymgyfarwyddo â nhw. Bydd yr amodau hyn ar waith nes i newidiadau deddfwriaeth neu bolisi neu'r ddau ofyn am eu hadolygu.

## Rhan 2 – GWEITHDREFN I YMGEISWYR

Rhaid cwblhau'r ffurflen gais atodedig (SKIP_FORM 1) gan y Cwmni Llogi Sgipiau a'i hanfon i Strydlun, Tîm Gwaith Stryd, Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, De Cymru NP20 4UR neu ei hanfon mewn e-bost i street.works@newport.gov.uk

Ar ôl rhoi caniatâd, caiff y cais ei gadarnhau trwy'r post neu e-bost gyda chyfeirnod ar frig y ffurflen ganiatâd (SKIP_PERM 2).

Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cysylltu â'r Cwmni Llogi Sgipiau dros y ffôn i roi gwybod a/neu i drefnu lleoliad amgen i'r sgip gael ei gosod ar y briffordd.

Rhan 3 – AMODAU ARBENNIG I OSOD, CADW A CHYNNAL

DARPARIAETHAU STATUDOL:

Dylai Deiliad y Caniatâd sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau statudol perthnasol. Y darpariaethau statudol perthnasol pwysicaf yw:

a) Deddf Priffyrdd 1980: Adrannau 139 a 140

(i) Adran 139(4): Os bydd perchennog yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r amodau y rhoddwyd caniatâd yn amodol arnynt bydd, fel y nodir yn y Ddeddf, yn euog o drosedd a gallai fod yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy.

(ii) Mae Adran 139(10) yn nodi na fydd unrhyw beth yn yr Adran yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n awdurdodi creu niwsans neu berygl i ddefnyddwyr y briffordd neu'n rhywbeth sy'n gosod ar Awdurdod Priffyrdd y rhoddwyd caniatâd ganddo dan yr Adran unrhyw atebolrwydd am unrhyw anaf, difrod neu golled sy'n deillio o bresenoldeb y sgip y mae'r caniatâd yn ymwneud â hi ar briffordd.

(iii) Mae Adran 140 yn grymuso'r Awdurdod Priffyrdd neu Swyddog yr Heddlu i ofyn i symud neu ail-leoli sgip adeiladwyr sydd ar y briffordd, er y'i gosodwyd yn unol â chaniatâd yr Awdurdod Priffyrdd, i adfer gan berchennog y sgip gost symud neu ail-leoli'r sgip, ac i waredu sgip nas cesglir gan ei pherchennog. Gall methu â chydymffurfio â chais i symud neu ail-leoli sgip dan yr Adran arwain at ddirwy.

b) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984: Adrannau 64 a 65

c) Rheoliadau Arwyddion Traffig (Rhwystrau Dros Dro) 1985 [A1 463]

ch) Rheoliadau Sgipiau Adeiladwyr (Marciau) 1984 [1984/1988]

d) Deddf Rheoli Llygredd (Diwygiad) 1989

dd) Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cofrestru Cludwyr ac Atafaelu Cerbydau) 1991.

AMODAU

1. Mae perchennog y sgip yn gyfrifol am sicrhau y ceir caniatâd cyn gosod y sgip ar y briffordd. Gallai fod angen caniatâd gan yr heddlu hefyd.
2. Os canfyddir sgip ddidrwydded ar y briffordd gyhoeddus, cysylltir â'r cwmni sgipiau i symud y sgip ymhen 24 awr. Os nad yw'r cwmni'n cydymffurfio, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cynllunio symud y sgip o'r briffordd a chaiff llythyr ei anfon i roi gwybod i'r cwmni o'r bwriad i erlyn dan Adran 137, Deddf Priffyrdd 1980 "Rhwystro'r Briffordd". Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cyfeirio'r cwmni sgipiau at Bennaeth Cyfraith a Safonau'r Cyngor ar gyfer camau cyfreithiol priodol. Os bydd y cwmni'n gofyn am gael y sgip yn ôl cyn i gamau cyfreithiol gael eu cymryd, y ffi fydd cost symud y sgip, gwaredu'r gwastraff yn y sgip a storio'r sgip.
3. Neu fel arall gallai'r Cyngor ystyried rhoi caniatâd ôl-weithredol, yn lle neu yn ogystal â chymryd camau gorfodi ffurfiol. **Codir ffi o £212.76 am ganiatâd ôl-weithredol.**
4. Rhaid i berchennog y sgip wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen gymeradwy atodedig (SKIP_FORM 1) o leiaf 48 awr cyn y dyddiad y bwriedir gosod y sgip ar y briffordd.
5. Bydd perchennog y sgip yn gyfrifol am sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu gan gludwr gwastraff cymeradwy. Bydd y cwmni sgipiau'n cyflwyno ei Rif Cofrestru/Trwydded Asiantaeth yr Amgylchedd ymhob cais.
6. Ystyrir estyn cyfnod unrhyw ganiatâd a rhaid i unrhyw gais am y fath estyniad gael ei wneud i'r Rheolwr Gwaith Stryd neu i'w gynrychiolydd 1 diwrnod gwaith cyfan cyn i'r caniatâd gwreiddiol ddod i ben.
7. Rhaid i'r caniatâd sgip fod ar gael i'w arolygu ar y safle awdurdodedig.
8. Bydd perchennog y sgip ac unrhyw olynwyr mewn teitl yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw atebolrwydd, colled, hawl neu achos sy'n codi dan y Statud neu Gyfraith Gyffredin o ran gosod, goleuo, marcio a chynnal y sgip adeiladwyr ar y briffordd neu o ran symud y sgip o'r fan honno. Y lleiafswm i gael ei yswirio gan y polisi yw £10 miliwn i unrhyw un digwyddiad.
9. Ni fydd unrhyw sgip yn fwy na 5 metr o hyd a 2 fetr o led.

10 Nifer a Lleoliad Sgipiau
   (a) Ni fydd mwy na nifer y sgipiau a nodir yn y caniatâd yn cael eu gosod ar unrhyw un adeg, a phryd hynny dim ond (gan ddibynnu ar yr amodau canlynol) yn y lleoliad a nodir yn y caniatâd.
   (b) Lle caniateir dwy sgip neu fwy, fe'u gosodir mewn rhes, nid mwy na 2 fetr oddi wrth ei gilydd. Caiff y rhes ei diogelu a'i goleuo fel un sgip.

11 Rhaid i'r sgip gael ei marcio'n glir ac yn amlwg ag enw a rhif ffôn a chyfeiriad y perchennog.

12 Rhaid i'r sgip gael ei phaentio'n felyn.

13 Rhaid gosod o leiaf 5 côn rhybudd perygl o amgylch y sgip yn y lleoliadau a nodir ar y darlun - **Gweler *Diagram 1.***

14 Rhaid i'r marciau fod yn glir ac yn effeithlon ac yn amlwg i ddefnyddwyr eraill y ffordd.

15 Rhaid i sgip a osodir ar lôn gerbydau gael ei gosod gyda'r ochr hirach yn

gyfochrog â'r cwrbyn heb fod yn fwy na 300mm oddi wrtho.

16 Ni osodir unrhyw sgip yn y fath fodd fel y bydd yn:

a) Rhwystro mynediad i unrhyw eiddo heb ganiatâd y perchennog ymlaen llaw.

b) Rhwystro mynediad i unrhyw dwll carthffos, siambr arolygu, falf stopio, heidrant tân neu offer unrhyw Ymgymerwr Statudol neu Awdurdod Lleol.

c) Rhwystro unrhyw system draenio dŵr wyneb.

ch) Rhaid i'r sgip beidio â chael ei gosod ar y palmant neu ar y llain ymyl.

17 Rhaid i'r sgip gael ei gosod â 2 farc adlewyrchol fflwroleuol coch a melyn fertigol ymhob pen (cyfanswm o 4) yn unol â Rheoliadau Sgipiau (Marciau) Adeiladwyr 1984 [1984/1988] – ***Gweler Diagram 2***.

18 Rhaid i'r sgip gael ei goleuo pan fo hi'n dywyll gyda 4 lamp, 1 ar bob cornel.

19 Ni chaiff unrhyw ddeunydd ffrwydrol, gwenwynig na pheryglus sy'n debygol o bydru neu sydd fel arall yn debygol o fod yn niwsans i ddefnyddwyr y briffordd ei osod yn y sgip adeiladwyr tra bydd hi ar y briffordd.

20 Ni chaiff unrhyw ddeunydd fflamadwy ei osod yn y sgip adeiladwyr tra bydd hi ar y briffordd.

21 Ni chaiff sgip adeiladwyr ei defnyddio mewn ffordd y bydd ei chynnwys yn cwympo ar y briffordd, neu y bydd llwch o'r sgip yn dianc tra bydd hi ar y briffordd.

22 Caiff sgip ei symud o'r briffordd cyn gynted â phosibl ac mewn unrhyw achos nid mwy na 48 awr ar ôl ei llenwi.

23 Pan ddaw'r caniatâd i ben, caiff y briffordd lle rhoddwyd y sgip adeiladwyr ei gadael mewn cyflwr glân a thaclus.

24 Nid yw rhoi caniatâd yn awdurdodi creu niwsans a gallai'r perchennog barhau'n atebol am unrhyw gamau a gymerir dan Adran 149 Deddf Priffyrdd 1980.

Rhan 4 – TALIADAU

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Trafnidiaeth) 1998, mae taliadau'r Cyngor wedi'u pennu fel a ganlyn:

Y ffi am gael penderfyniad ar gais am ganiatâd i leoli sgip ar y briffordd yw **£55.67 ar hyn o bryd** sydd, os caiff ei roi, yn ddilys am 14 diwrnod. Os oes angen estyniad i'r caniatâd, dylai ymgeiswyr nodi bod rhaid i gais adnewyddu ddod i law o leiaf 1 diwrnod gwaith llawn cyn i'r drwydded wreiddiol ddod i ben.

Nid oes modd ad-dalu'r ffi ar ôl cymeradwyo'r cais.

Pan osodir sgip ar y briffordd heb ganiatâd, caiff e-bost ei anfon i bob cwmni yn rhoi gwybod iddo am y sgip ddidrwydded. Os bydd y sgip yno 24 awr yn ddiweddarach o hyd, caiff ei symud a bydd taliadau pellach yn berthnasol. Os bydd y perchennog yn cyflwyno ei hun, gallai'r Cyngor ystyried rhoi caniatâd ôl-weithredol, yn lle neu yn ogystal â chymryd camau gorfodi ffurfiol. **Codir ffi o £212.76 am ganiatâd ôl-weithredol.**

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill ar gael ar gais / This form is available in English, other formats available on request.

## Rhan 5 - DIAGRAMAU

**Diagram 1**






**Diagram 2**




NODIADAU:

(a) Ni fydd Lled dau hanner y marcio'n llai na 140mm nac yn fwy na 280mm.
(b) Ni fydd hyd dau hanner y marcio'n llai na 350mm nac yn fwy na 700mm.
(c) Ni fydd ongl pob stribyn yn llai na 40 gradd yn fertigol nac yn fwy na 50 gradd yn fertigol.
(ch) Bydd gan ddau hanner y marcio arwyneb sydd o leiaf 960 $cm^2$.
(d) Ni fydd lled pob stribyn yn llai na 133mm nac yn fwy na 147mm.

# RHEOLI SGIPIAU ADEILADWYR

DEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 139

**Cais am ganiatâd i osod, cadw a chynnal sgip adeiladwyr ar y briffordd gyhoeddus.**

ADRAN 1 – Manylion yr Ymgeisydd

| **Enw a Chyfeiriad yr Ymgeisydd**<br><br><br>**Rhif Ffôn:** **Rhif Ffacs:** | **Enw a Chyfeiriad y Cyswllt**<br><br><br>**Rhif Ffôn:** **Rhif Ffacs:** |
|---|---|

ADRAN 2 – Lleoliad (Cyfeiriad a/neu Gynllun)

ADRAN 3 – Nodwch pam na ellir rhoi'r sgip ar dir yr eiddo

ADRAN 4 – Hyd (Uchafswm o 14 Diwrnod)

**O:** **Tan:**

ADRAN 5 – Rhif Cofrestru/Trwydded Asiantaeth yr Amgylchedd

ADRAN 6 – Manylion Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (Isafswm o £10 miliwn)

**Yswiriwr:**

**Rhif y Polisi:**

**O:** **Tan:**

ADRAN 7 - Datganiad

Rwyf i/Rydyn ni'n cytuno i gadw at yr holl amodau a nodir yn y Nodiadau Canllaw a roddwyd i mi/ni gan Gyngor Dinas Casnewydd:

**Enw (priflythrennau):** **Ar ran (cwmni):**

**Llofnod:** **Dyddiad:**